



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Arloesi

## Wales & West Utilities

### Gwasanaeth nwy brys a phibellau yn cyflwyno arloesedd drwy gydweithrediad



Rheolwr arloesi, Lucy Mason a chyfarwyddwr rheoliadau, Steven Edwards, o Wales & West Utilities

Roedd **Wales & West Utilities** yn un o wyth sefydliad i ymuno â rhaglen arbrofol 'arloesi agored'. Roedd hon yn un a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i annog rhai o gyflogwyr mwyaf y wlad i ymestyn allan i'r gronfa enfawr o ddoniau sy'n bodoli yng Nghymru i gynorthwyo mynd i'r afael â'u heriau busnes allweddol.

Nododd cyfranogwyr yn y rhaglen arloesi agored heriau y teimlent allai elwa o arloesi a gyflwynwyd drwy gydweithrediad rhagweithiol gyda'r gymuned fusnes neu'r byd academiaidd yng Nghymru.

#### Datblygu 'Fframwaith Arloesi'

Mae arloesi wedi bod yn ganolog i rôl Wales & West Utilities erioed mewn cyflwyno gwasanaethau hanfodol i'r 7.5m o bobl yn ei ranbarth, ond daeth yn fwy amlwg ers 2013, pryd cyflwynwyd fframwaith rheoliadol newydd. Mae'r fframwaith yn penderfynu ar y referniw y mae cwmnïau dyrannu a throsglwyddo nwy a thrydan yn ei dderbyn. Mae arloesi yn un o'r meini prawf allweddol.

Canolbwyntiodd y cwmni ar arloesi i leihau costau i gwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol, wrth yrru effeithlonrwydd busnes.

Datblygodd strategaeth arloesi, dan arweiniad rheolwr arloesi newydd ei benodi. Cafwyd cymorth rhaglen ymgysylltu a

#### Llwyddiannau Allweddol Wales & West Utilities:

- Gwnaeth y cwmni asesu dros 400 o wahanol syniadau a arweiniodd at 47 o brosiectau
- Roedd 33 o'r prosiectau hyn yn golygu cydweithio â chynrychiolwyr allanol
- Arweiniodd hyn at fuddsoddiad gwerth £3 m
- Arbedion amcangyfrifol o £1 filiwn

chydweithredu gyda sefydliadau allanol hefyd. Mae ystod o bartneriaethau, gan gynnwys y Ganolfan Arloesi Ynni (EIC) sydd ledled y DU, wedi cynorthwyo i nodi cyfleoedd a hwyluso datblygu a chynnydd prosiectau a thechnolegau arloesi newydd.

Cydnabu'r cwmni hefyd bod staff yn ffynhonnell arloesi arwyddocaol. Felly, gwnaeth 'fforwm arloesedd' mewnol, gyda chynrychiolwyr ledled y busnes, gyfarfod yn fisol i drafod cynnydd.

## Cyflwyno canlyniadau

Yn ystod cyfnod o dair blynedd, asesodd tîm arloesi'r cwmni dros 400 o syniadau gwahanol a drowyd yn 47 prosiect arloesi nodweddiadol. Roedd 33 ohonynt yn cynnwys cydweithrediad allanol. Mae'r prosiectau hyn wedi'u tanategu gan werth £3m o fuddsoddiad. Maent eisoes wedi arwain at amcangyfrif o £1m o arbedion costau. Maent wedi rhoi'r cwmni mewn sefyllfa llawer gwell i wneud y mwyaf o'r posibilrwydd o brosiectau a datrysiadau yn y dyfodol. Roedd cyfranogiad y cwmni yn yr arbrawf arloesi agored yn gatalydd am newid. Cyfrannodd hefyd at ddau amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y rhain oedd creu "Cymru lewyrchus" ac, o ystyried cylch gwaith amgylcheddol y cwmni, "Cymru wydn".

Parha arloesi i chwarae rôl allweddol mewn cynorthwyo Wales & West Utilities i gyflwyno'r lefelau uchaf posibl o ddiogelwch, gwasanaeth a dibynadwyedd i'r cymunedau a wasanaetha. Mae'r cwmni hefyd wedi rhannu ei brofiadau dysgu gyda Llywodraeth Cymru, ynghyd â sefydliadau eraill y tu hwnt i'w rwydweithiau cyfagos.

"Mae'r arbrawf arloesi agored wedi rhoi amlygiad gwerthfawr i ni at ystod amrywiol o sectorau sy'n cynnwys amddiffyn, cynhyrchion fferyllol ac electroneg. Mae wedi caniatáu i ni fynd y tu allan i'n sefydliad ein hun i gysylltu â'r byd academiaidd a chyflenwyr newydd, yn fawr a bach. Mae hyn er mwyn i ni ddatblygu datrysiadau a thynnu ar sgiliau ac arbenigedd i gwrdd â heriau'r dyfodol."

**Lucy Mason, Rheolwr Arloesedd Wales & West Utilities**

## Beth nesaf?

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wthio arloesi agored drwy ymgysylltu â sefydliadau mawr eraill yng Nghymru'n uniongyrchol. Mae hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd am brosiectau cydweithredu ar ei gwefan Arbenigedd Cymru [[www.expertisewales.com](http://www.expertisewales.com)]. Mae'r strategaeth arloesi agored yn canolbwyntio ar annog partneriaid o fewn cymuned BBaCh Cymru i ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau mawr a gweithio'n gydweithredol ar ddatrysiadau arloesol i'w heriau busnes.

I wybod rhagor am gyllid a chymorth  
gan Lywodraeth Cymru  
03000 6 03000 | [innovation@wales.gsi.gov.uk](mailto:innovation@wales.gsi.gov.uk)  
[businesswales.gov.wales/cy/innovation](http://businesswales.gov.wales/cy/innovation)

**Busnes | Business  
Cymru | Wales**